CORFF LLYWODRAETHOL YR EGLWYS YNG NGHYMRU

39 Heol yr Eglwys Gadeiriol
Caerdydd
CF11 9XF

7 Ebrill 2009

RHODDIR RHYBUDD y cynhelir CYFARFOD CYFFREDIN O GORFF LLYWODRAETHOL YR EGLWYS YNG NGHYMRU yn Venue Cymru, Llandudno, ar Ddydd Mawrth a Dydd Mercher 21 a 22 Ebrill 2009.

Bydd y cyfarfod yn dechrau gyda gweinyddiad o'r Cymun Bendigaid am 9.30.

J M Shirley *Ysgrifennydd Lleyg*

Noder: Tynnir eich sylw at y Rheolau Sefydlog a Materion Trefniadol a osodwyd ar ôl yr Agenda.

THE GOVERNING BODY OF THE CHURCH IN WALES

39 Cathedral Road
Cardiff
CF11 9XF

7 April 2009

NOTICE IS HEREBY GIVEN that there will be an ORDINARY MEETING OF THE GOVERNING BODY OF THE CHURCH IN WALES at Venue Cymru, Llandudno, on Tuesday and Wednesday 21 and 22 April 2009.

The meeting will commence with a celebration of the Holy Eucharist at 9.30.

J M Shirley *Lay Secretary*

Note: Attention is drawn to Standing Orders and Procedural Matters which are set out following the Agenda.

AGENDA

DYDD I **AMSER**

Gweinyddiad o'r Cymun Bendigaid (Eglwys y Drindod Sanctaidd, Llandudno) 09:30

COFFI 11.00

1. Tystir bod Mandat y Llywydd wedi ei weithredu'n gywir. 11.30

2. Cofnodion y Cyfarfod Cyffredin o'r Corff Llywodraethol a gynhaliwyd ar 17 ac 18 Medi 2008

(Amgaeir copi o'r Cofnodion)

3. Materion yn codi o'r Cofnodion (os oes rhai)

4. Croesawu cynrychiolwyr o Cytûn ac o eglwysi eraill.

5. Anerchiad y Llywydd

6. Adroddiad y Pwyllgor Sefydlog

(Amgaeir copi o'r Adroddiad)

Cynigir argymhellion y Pwyllgor a draethir ar derfyn yr Adroddiad.

7. Y Cyfamod Anglicanaidd

(Amgaeir copi o Adroddiad Ail Gyfarfod Grŵp Cynllunio'r Cyfamod, Ymateb y Dalaith i Ddrafft Sant Andreas a nodyn eglurhaol)

Cynnig:

Bod y Corff Llywodraethol yn cymryd sylw o ymateb yr Eglwys yng Nghymru i Ddrafft Sant Andreas ynglŷn â'r Cyfamod Anglicanaidd.

CINIO 13.00-14.00

8. Adroddiad a Phleidlais ar y Foreol a'r Hwyrol Weddi

(Gofynnir i'r aelodau ddod â chopi o'r Bil a'r Memorandwm Eglurhaol a ddosbarthwyd ym mis Gorffennaf 2008 gyda hwy. Amgaeir copi o Adroddiad y Pwyllgor Sefydlog)

Cynnig:

(D.S. Ni wneir y cynnig a ganlyn ond os gofyn un esgob cadeiriol neu unrhyw ddeg aelod arall am hynny)

Bod y Corff Llywodraethol yn pwyllgora:

(a) Cyfnod o bwyllgora
(b) Adroddiad a Phleidlais

Cynnig:

Bod y Bil yn cael ei basio

9. Cyflwyniad Pobl Ifainc dan 25 oed Esgobaeth Llanelwy

10. Plant a Rhianta: Strategaeth at y Dyfodol (Cyflwyniad Cyfrifoldeb Cymdeithasol)

11. Cyflwyniad ar Brosiectau 'Gwreiddiau' Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon

12. Cronfa Jiwbilî yr Eglwys yng Nghymru

(Amgaeir copi o Gylchlythyr Cronfa'r Jiwbilî)

Cynnig:

Bod y Corff Llywodraethol:

(i) yn cydymdeimlo â Chyngor Eglwysi'r Dwyrain Agos a phobl ardal Shija'ia yn Gasa ar ddinistrio eu Canolfan Iechyd Teulu gan daflegryn Israelaidd ar 10 Ionawr 2009;

(ii) yn cymeradwyo gwaith Cronfa Jiwbilî yr Eglwys yng Nghymru yn cefnogi Cyngor Eglwysi'r Dwyrain Agos i ailadeiladu'r Ganolfan Iechyd Teulu a'i hailgyflenwi â meddyginiaethau a chyfarpar i'r fferyllfa a'r clinig deintyddol symudol;

(iii) yn gofyn i blwyfi godi arian at y Gronfa a'i gwaith mewn partneriaeth â Chyngor Eglwysi'r Dwyrain Agos yn Gasa, yn enwedig trwy gyfrwng 'Bore Coffi Mwyaf Cymru' ar 2 Mai, a digwyddiadau eraill.

13. Cynnig Aelodau Preifat

(Amgaeir copi o bapur eglurhaol)

Bydd yr Hybarch Malcolm Squires, Archddiacon Wrecsam yn cynnig a'r Parchedig Ganon Jonathan Williams yn eilio:

Bod y Corff Llywodraethol:

(i) yn nodi, o ganlyniad i Fesur Priodasau Eglwys Loegr 2008, bod y cymwysterau sy'n rhoi hawl i briodi mewn eglwys yn yr Eglwys yng Nghymru yn awr yn wahanol i'r rhai sydd mewn grym yn Eglwys Loegr, a bod hyn yn debygol o greu tensiynau yn enwedig, ond nid yn unig, mewn ardaloedd sy'n agos at y ffin; a

(ii) chan nodi y bydd angen Deddf Seneddol i newid y gyfraith yn yr Eglwys yng Nghymru i gyfateb i'r hyn sy'n digwydd yn Lloegr, yn gofyn i'r Pwyllgor Sefydlog gymryd y camre angenrheidiol i annog deddfu felly.

14. Amser Cwestiynau

Gosber Corawl (Eglwys Sant Paul, Llanrhos) 18.00

CINIO 19.15

Gweithdy: 20.30

Menter 2

DYDD 2

Boreol Weddi (Eglwys y Drindod Sanctaidd, Llandudno) 07:15

Gweinyddiad o'r Cymun Bendigaid (Eglwys y Drindod Sanctaidd, Llandudno) 07:30

15. Gweddïau a Darlleniad o'r Beibl 10.00

16. Comisiynydd Plant Cymru – Anerchiad

17. Cyflwyniad ar Brosiectau Undeb y Mamau yng Nghymru

18. Cyflwyniad ar Gronfa Archesgob Cymru er budd Plant

(Amgaeir copi o daflen eglurhaol)

19. Plant, Pobl Ifainc a'r Teulu

Cynnig:

Bod y Corff Llywodraethol:

(i) yn diolch yn gynnes i bawb yr oedd a wnelont â'r cyflwyniadau ar:

- waith Esgobaeth Llanelwy gyda rhai dan 25 oed
- gwaith swyddogion cyfrifoldeb cymdeithasol ar faterion yn ymwneud â phlant a rhianta
- prosiectau 'Gwreiddiau' Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon
- gwaith y Comisiynydd Plant
- gwaith Undeb y Mamau yn Nghymru
- Cronfa Archesgob Cymru er budd Plant

(ii) yn cymeradwyo gwaith y prosiectau a'r mudiadau hyn a'u cyfraniad at gefnogi plant, pobl ifainc a theuluoedd ledled Cymru.

20. Sul 'Yn ôl i'r Eglwys'

21. Archfarchnadoedd a Ffermio ym Mhrydain

(Amgaeir copi o bapur eglurhaol a chopi o *Fairtrade begins at Home – Supermarkets and the effect in British farming livelihoods*)

Cynnig:

Bod y Corff Llywodraethol:

(i) yn croesawu'r Adroddiad *Fairtrade begins at Home – Supermarkets and the effect on British farming livelihood* fel cyfraniad gwerthfawr at ddeall y cyd-destun economaidd a masnachol presennol o safbwynt cynhyrchwyr a phrynwyr bwyd;

(ii) yn cymeradwyo'r Adroddiad i bawb sydd â gofal bugeiliol am gymunedau amaethyddol yng Nghymru i'w astudio a gweithredu arno pan fo hynny'n addas;

(iii) yn gofyn i fuddsoddwyr yr Eglwys gymryd sylw o'r Adroddiad a defnyddio hynny o ddylanwad sydd ganddynt fel cyfranddalwyr i sicrhau cyfiawnder i gymunedau gwledig.

22. Adroddiad Coleg Mihangel Sant, Llandaf

(Amgaeir copi o'r Adroddiad)

Cynnig:

Derbyn Adroddiad Coleg Mihangel Sant, Llandaf

23. Dyddiad a Lleoliad y Cyfarfod Nesaf

Penderfynodd y Corff Llywodraethol y cynhelir y Cyfarfod Cyffredin nesaf ar 16 ac 17 Medi 2009 ym Mhrifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan.

MATERION TREFNIADOL

Mabwysiadwyd y trefniadaethau a ganlyn gan y Corff Llywodraethol. Y mae'r Pwyllgor Sefydlog wedi rhoi cyfarwyddydd am iddynt gael eu hargraffu ar ddiwedd Agenda'r Corff Llywodraethol, er mwyn iddynt gael eu cadw o flaen y Corff Llywodraethol.

1. Ynglŷn â Goblygiadau Ariannol Penderfyniadau a Basiwyd yng Nghyfarfodydd y Corff Llywodraethol

   Ni fydd cynigiadau a basiwyd gan y Corff Llywodraethol i gyflwyno swm unigol o arian nas cynhwyswyd yn y gyllideb, pa un a nodir yr union swm ai peidio, yn dod i rym nes bydd:-

   (a) Y Pwyllgor Sefydlog wedi hysbysu'r Corff y Cynrychiolwyr am y flaenoriaeth sydd i'w rhoi i'r eitem hon mewn perthynas ag anghenion ariannol eraill, a

   (b) Y Corff y Cynrychiolwyr wedi gallu cynnwys yr eitem yn ei gyllideb flynyddol, neu wneud darpariaethau o incwm nas dyrannwyd.

   Ni ddaw cynigiadau a basiwyd gan y Corff Llywodraethol i gyflwyno arian nas cynhwyswyd yn y Gyllideb dros gyfnod o fwy na blwyddyn i rym nes bydd y drefniadaeth uchod wedi ei chwblhau, ac wedi ei chymeradwyo gan Gorff y Cynrychiolwyr.

   Ni fydd darpariaethau adran 35(2) Pennod II y Cyfansoddiad i'w cymhwyso at unrhyw gynigiad sy'n dod o fewn y paragraff hwn.

2. Rheolau ar gyfer Amser Cwestiyna

   Y mae'r drefniadaeth ar gyfer Amser Cwestiyna fel a ganlyn:

   - Gwahoddir cwestiynau cyn y Cyfarfod, y wybodaeth yn cael ei chynnwys gyda Gwŷs yr Archesgob.

   - Wedi derbyn y cwestiynau erbyn y diwrnod cau, anfonir rhestr o'r cwestiynau a dderbyniwyd i'r aelodau.

   - Bydd y Cadeirydd yn gwahodd yr aelod mwyaf cymwys i ateb ac yn cyfeirio at y cwestiynau wrth eu rhif yn hytrach na'u darllen i gyd yn llawn gan fod gan yr aelodau eisoes gopïau o'u blaen.

   - Un cwestiwn yn unig y caiff aelodau ei ofyn a chânt ofyn un cwestiwn ychwanegol yn codi o'r un gwreiddiol neu wneud sylw byr ar yr ateb a roddwyd. Dim ond y sawl a ofynnodd y cwestiwn (neu ei ddirprwy ef/ei dirprwy hi) a gaiff ofyn cwestiwn ychwanegol neu wneud sylw.

   - Bwriedir y sesiwn ar gyfer cwestiynau ac atebion. Nid y bwriad yw cael trafodaeth gyffredinol yn dilyn yr atebion i'r cwestiynau hyn.

3. Newidiadau i Gofnodion y Corff Llywodraethol

   Rhaid i aelodau'r Corff Llywodraethol roi tri diwrnod gwaith o rybudd am unrhyw gynigiad i ddiwygio'r cofnodion er mwyn cael amser digonol i ystyried y goblygiadau.

4. Adrodd yn ôl o'r Corff Llywodraethol

   Disgwylir i aelodau'r Corff Llywodraethol adrodd yn ôl yn aml i gyfarfodydd Deoniaethau a Phlwyfi am yr hyn a ddigwyddodd yn y Corff Llywodraethol.

5. Hawl i annerch y Corff Llywodraethol

   Bydd gan yr Ysgrifennydd Taleithiol, Prif Swyddog Cynghorwyr yr Esgobion, a'r gwahoddedigion ecwmenaidd ym mhob cyfarfod hawl i annerch y Corff Llywodraethol ar unrhyw adeg yn ddarostyngedig i ac yn unol â'r rheolau sefydlog heb fod angen caniatâd y Corff Llywodraethol sydd yn angenrheidiol cyn y caniateir i'r rhai nad ydynt yn aelodau siarad, ond ni fydd ganddynt hawl i bleidleisio.

Adolygwyd ym mis Medi 2002

RHEOLAU SEFYDLOG

1. Bydd holl gyfarfodydd y Corff Llywodraethol yn dechrau gyda gweddi.

2. Wedi i'r Cadeirydd gymryd y Gadair, ef neu hi fydd yn rheoli gweithgareddau'r cyfarfod, yn ddarostyngedig i'r Rheolau Sefydlog a'r Cyfansoddiad.

3. Os nad yw aelod am godi pwynt o drefn, ni chaiff annerch y Gadair ond o le sydd o fewn cyrraedd meicroffon, a bydd yn rhaid iddo/iddi yn gyntaf roi ei enw neu ei henw, ei swydd berthnasol (os oes un) a'r esgobaeth y daw ef neu hi ohoni.

4. Rhaid i bob cynnig a phob gwelliant fod mewn ysgrifen, ac wedi eu harwyddo gan y cynigydd; oni roddwyd hwy i'r Ysgrifenyddion cyn y cyfarfod, rhaid i'r cynigydd roi un copi i'r Cadeirydd ac un i'r Ysgrifenyddion.

5. (1) Ni chaiff areithiau, ac eithrio areithiau cynigydd ac eilydd, fod yn hwy na 5 munud, neu 6 munud yn achos areithiau cyfan y mae'n rhaid eu cyfieithu ar y pryd.
   (2) Ni chaiff areithiau cynigydd ac eilydd fod yn hwy na 10 munud, neu 12 munud yn achos areithiau cyfan y mae'n rhaid eu cyfieithu ar y pryd.
   (3) Nid yw'r rheol hon yn ystyried gwelliant yn gynnig.

6. Fe all y Cadeirydd, gyda chaniatâd y cyfarfod, ganiatáu mwy o amser i araith.

7. (1) Ni fydd yn rhaid darllen cynnig a osodwyd yn llawn ar bapur yr agenda neu'r papurau a ddaw gyda'r agenda cyn ei osod gerbron, onid yw'r Cadeirydd, neu ddeg aelod (a fydd yn dangos eu bwriad trwy godi yn eu seddau) yn dymuno hynny.
   (2) Bydd pob cynnig neu welliant arall yn cael eu darllen yn union cyn pleidleisio arnynt.

8. Ni chaniateir i'r un aelod siarad fwy nag unwaith ar yr un cynnig na gwelliant, ar wahân i esbonio neu i godi pwynt o drefn, ar yr amod y caniateir i gynigydd y cynnig neu'r gwelliant yr hawl i ateb.

9. Pryd bynnag y bydd y Cadeirydd yn codi ar ei draed yn ystod dadl, bydd yn rhaid i unrhyw un sy'n siarad, neu'n gwneud ymgais i siarad, eistedd i lawr.

10. (1) Os bydd 20 aelod yn codi yn eu seddau yn ystod dadl ac yn mynnu fod pleidlais i'w chymryd, bydd y Cadeirydd yn gosod y cwestiwn gerbron y cyfarfod i'w ateb trwy godi dwylo.
    (2) Os bydd y cyfarfod yn ateb yn gadarnhaol, fe gymerir pleidlais ar y cynnig gerbron, ar yr amod y caniateir i gynigydd y cynnig neu'r gwelliant yr hawl i ateb cyn cymryd y bleidlais.

11. Gall unrhyw aelod gynnig fod y ddadl bresennol yn cael ei therfynu ar unwaith heb gymryd pleidlais, a bydd y Cadeirydd yn gosod y mater gerbron y cyfarfod. Os bydd y cyfarfod yn derbyn hynny, eir ymlaen yn syth at y mater nesaf.

12. Ni fydd unrhyw welliant i welliant mewn trefn nes bod y gwelliant cyntaf yn gynnig penodol.

13. Bydd ar gynnig i atal y Rheolau Sefydlog angen cytundeb mwyafrif yr aelodau sy'n bresennol.

14. Nid yw'r Rheolau Sefydlog hyn i'w cymhwyso i weithgareddau pwyllgorau.

Adolygwyd ym mis Medi 2006

GWEDDÏAU

Yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân. **Amen**

Credaf yn Nuw Dad Hollgyfoethog,
creawdwr nef a daear:

Ac yn Iesu Crist ei unig Fab ef, ein Harglwydd ni,
yr hwn a gaed trwy'r Ysbryd Glân,
a aned o Fair Forwyn, a ddioddefodd dan Pontius Pilat,
a groeshoeliwyd a fu farw, ac a gladdwyd.
Disgynnodd i uffern.
Y trydydd dydd y cyfododd o feirw,
a esgynnodd i'r nefoedd,
ac y mae'n eistedd ar ddeheulaw Duw
Dad Hollgyfoethog;
oddi yno y daw i farnu'r byw a'r meirw.

Credaf yn yr Ysbryd Glân;
yr Eglwys Lân Gatholig;
cymun y saint;
maddeuant pechodau;
atgyfodiad y corff;
a'r bywyd tragwyddol. Amen.

Hollalluog Dduw a adeiledaist dy Eglwys ar sail yr Apostolion a'r Proffwydi, ac Iesu Grist ei hun yn ben conglfaen: Caniatâ i ni fod wedi ein cysylltu ynghyd mewn undeb ysbryd gan eu dysgeidiaeth hwy, fel y gwneir ni'n deml sanctaidd gymeradwy gennyt; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Hollgyfoethog Dduw, atolygwn arnat arwain â llewyrch dy Lân Ysbryd Archesgob, Esgobion, Clerigion a Lleygwyr Corff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru, fel y byddo doeth eu hymgyngor er lles dy Eglwys a gogoniant dy Enw; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

(Ar Ŵyl gellir ychwanegu'r Colect am y Dydd.)

Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw;
deled dy deyrnas;
gwneler dy ewyllys,
megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.
Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol.
A maddau i ni ein dyledion,
fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.
Ac nac arwain ni i brofedigaeth;
eithr gwared ni rhag drwg.
Canys eiddot ti yw'r deyrnas,
a'r gallu, a'r gogoniant,
yn oes oesoedd. Amen.

Cynhyrchwyd gan Adran Gyhoeddiadau yr Eglwys yng Nghymru ac argraffwyd ar ddefnyddiadau a ailgylchwyd
Produced by the Church in Wales Publications Department and printed on recycled materials